**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18 Mehefin 2012**

**PERFFORMIAD ARIANNOL 2011-2012**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2011-12.

## Cyflwyniad

2 Oherwydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn y blynyddoedd diwethaf, dim ond erbyn 30 Medi y mae angen cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig i'r Aelodau i'w cymeradwyo. Ond er mwyn i'r Aelodau wybod y diweddaraf am sefyllfa ariannol yr Awdurdod, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgarwch ariannol am y flwyddyn 2011-12.

3 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu gwariant refeniw 2011-12 o'i gymharu â'r gyllideb, gyda'r dadansoddiad ariannol yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn rhoi sylwadau am y Cronfeydd a'r Darpariaethau sydd gan yr Awdurdod; mae'r darpariaethau a'r newidiadau arfaethedig yn Atodiad B. Mae adran nesaf yr adroddiad yn edrych ar gynlluniau a gafodd arian grant, gyda dadansoddiad manwl yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod y gweithgarwch yn y flwyddyn mewn perthynas â chyfalaf; gellir cael y manylion yn Atodiad D.

## Gweithgarwch Refeniw

### Gweithwyr

4 Fel y gwelir yn y graff, mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau; 71% yn 2011-12. Mae hyn yn gyfran is nag yn 2010-11 pan oedd cyflogau yn 73% o'r gwariant. Ar y cyfan, roedd tanwariant o £668k mewn perthynas â chyllideb net cyflogau, sydd fymryn yn uwch na'r amcangyfrif o £548k a ddarparwyd i'r Aelodau ym mis Mawrth 2012. Mae'r arbediad ychwanegol yn bennaf oherwydd llai o gostau hyfforddiant pan fo arian grant wedi gwrthbwyso gwariant yn yr ychydig fisoedd diwethaf, a'r ffordd ddarbodus a gafwyd wrth adrodd yr amcangyfrifon alldro ar gyfer ffioedd digwyddiadau fel bod modd ymorol am unrhyw hapddigwyddiadau posibl.

5 Mae gorwariant mewn perthynas â chyllideb pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn; nid oedd y rhain yn rhan o'r amcangyfrif gwreiddiol, ac nid ydynt yn cael eu hariannu trwy'r cyfrif pensiynau.

6 Mae tanwariant mewn perthynas â staff cefnogol ac atal tanau oherwydd na lenwyd rhai o'r swyddi Diogelwch Tân Cymunedol, a oedd i gael eu hariannu gan arbedion swyddi'r peiriant ysgol ac esgynlawr. Mae hyn yn ganlyniad ailstrwythuriad, a'r angen i wneud arbedion yn 2011/12 i'w cario drosodd i 2012/13.

7 Mae'r tanwariant mewn perthynas â diffoddwyr tân amser cyflawn yn eithaf bach, sef £199k o'i gymharu â'r £13.5 miliwn yn y gyllideb. Mae'r tanwariant yn rhannol o ganlyniad i arbedion yn erbyn y gyllideb mewn perthynas â thaliadau goramser ac ymddeoliadau yn ystod y flwyddyn lle na lenwyd swydd oherwydd yr angen eto i gael arbedion yn y blynyddoedd i ddod.

8 Mae'r tanwariant ar ddiffoddwyr tân y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw, sef £206k, oherwydd gostyngiad yn y ffioedd digwyddiadau dros ddeufis diwethaf y flwyddyn, a gostyngiad dros dro yn nifer diffoddwyr tân a gyflogir gan yr Awdurdod ar y system honno.

9 Mae’r tanwariant mewn perthynas â’r pennawd Amrywiol yn y gyllideb oherwydd taliadau diswyddo a wnaed yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd ailstrwythuro’r staff gweinyddol sy’n darparu cefnogaeth i orsafoedd y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw. Bydd y costau hyn yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion a fydd yn y blynyddoedd i ddod oherwydd gostyngiad yn nifer swyddi’r staff cefnogol.

**Safleoedd**

10 Mae’r diffyg yng nghyfrif masnachu Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn cael ei gofnodi ar y Refeniw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae’r diffyg yn y cyfrif £18k yn llai o’i gymharu â’r llynedd oherwydd ailstrwythuro’r staff. Cyllidebwyd y bydd cyfrif masnachu Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn adennill costau dros y flwyddyn. Ond ni chymerir ystyriaeth o’r gwaith ychwanegol a wneir gan y staff mewn meysydd eraill o’r Gwasanaeth, megis Diogelwch Tân Cymunedol.

11 Bydd gorwariant yn y gyllideb atgyweirio a chynnal chadw, a hynny oherwydd ailddosbarthu rhai o’r eitemau bychain o wariant o gyfalaf i refeniw. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o arbedion yn y blynyddoedd i ddod ar ffioedd ariannu cyfalaf oherwydd y bydd y cyfalaf angenrheidiol yn llai.

**Cludiant**

12 Ar y cyfan, mae mymryn o danwariant yn y gyllideb Cludiant, gyda tanwariannau mewn meysydd eraill yn gwrthbwyso gorwariannau wrth rai penawdau. Mae’r cynnydd ym mhrisiau tanwydd, yswiriant a chydrannau wedi eu gwrthbwyso gan lai o gostau oherwydd y gostyngiad yn y gweithlu.

**Cyflenwadau**

13 Dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, y prif faes lle ceir tanwariant yw Offer Gweithredol, ac mae hynny wedi digwydd yn bennaf oherwydd cynnydd yn y lefelau stoc lle mae’r newid yng ngwerth y stoc wedi ei wrthbwyso yn erbyn refeniw. Mae hyn yn ganlyniad ailbrisio’r stoc cyn symud i system newydd i reoli stoc.

14 Mae'r gwariant ar Argraffu ac Offer Swyddfa yn llai oherwydd newidiadau mewn arferion gweithio a bod yn ddoethach wrth gaffael. Mae'r costau Diogelwch Tân hefyd yn llai oherwydd bod llai o hydrantau wedi eu trwsio oherwydd gordaliad yn y flwyddyn flaenorol.

15 Mae tanwariant sylweddol, sef £180k, ar gostau cyfrifiadurol. Ni ddaeth y tanwariant hwn i'r amlwg tan ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd: trafodaethau gyda chwmnïau meddalwedd i leihau costau trwyddedau, a chadarnhad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ariannu rhai costau trwyddedu.

16 Mae tanwariant mewn perthynas â chostau cyfathrebu oherwydd oedi wrth roi'r gwaith datblygu ar waith, gan arwain at arbediad mewn costau rhentu ffonau yn y flwyddyn.

**Asiantaeth**

17 Dan Asiantaeth, mae costau glanhau adeiladau a chynnal a chadw tir wedi codi oherwydd newid ym manylebau'r cytundebau glanhau a chynnal a chadw.

**Gwasanaethau Cefnogol**

18 Mae'r costau rheoli cyfleusterau wedi codi oherwydd y gwaith ychwanegol sydd ei angen i sicrhau bod pob safle yn cwrdd â gofynion rheoleiddiol. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwyso'n rhannol gan incwm a gafwyd gan ffioedd cyfalaf oherwydd gwaith a wnaed gan yr adran ar brosiectau cyfalaf, ynghyd ag aildrafod y rhenti ar gyfer safleoedd ar y cyd.

**Ariannu Cyfalaf**

19 Mae ffioedd dyledion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin, ynghyd â'r defnydd o fenthyciadau tymor byr y tu allan i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

## Incwm

20 Mae'r incwm o werthiant wedi cynyddu ar ôl gwerthu nifer o gerbydau a oedd wedi eu dadgomisiynu.

21 Mae'r incwm o alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na'r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y gallai'r Awdurdod godi tâl amdanynt.

22 Mae'r incwm o gyrsiau Hyfforddi wedi gostwng oherwydd y penderfynwyd cyfeirio'r staff a oedd yn gwneud hyn i roi cyngor diogelwch tân yn rhad ac am ddim i'r gymuned fusnes.

23 Mae'r llog ar fuddsoddiadau yn llai na'r ffigwr yn y gyllideb oherwydd y cyfraddau llog isel, ynghyd â gostyngiad yn yr arian sydd ar gael i'w fuddsoddi.

24 Mae'r incwm Cynllunio rhag Argyfyngau yn ad-daliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau arbennig. Mae hyn wedi lleihau oherwydd gostyngiadau yn yr arian ar gyfer y rhaglen Dimensiynau Newydd.

## Tanwariant

25 Mae'r tanwariant o'i gymharu â'r gyllideb wedi ei reoli'n ofalus fel bod digon o arian ar gael i ymorol am gostau pontio tymor byr fel rhan o ddyfodiad system gylchrestru yn 2012-13 wrth baratoi ar gyfer cyrraedd targedau'r arbedion a osodwyd ar gyfer cyllideb 2012-13 fel y cytunodd yr Aelodau yn Rhagfyr 2011. Mae'r tanwariant i gael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw orwariant oherwydd oedi wrth ostwng nifer angenrheidiol y gweithwyr er mwyn cwrdd â tharged yr arbedion.

26 Cytunodd yr Awdurdod y dylid defnyddio'r £68,000 o danwariant i dalu'r dreth stamp a'r ffioedd ar gyfer y bwriad arfaethedig i brynu'r Pencadlys.

27 Roedd yr Aelodau hefyd o blaid adeiladu Cronfa Gyffredinol i ddarparu rhywfaint o sicrwydd bod arian ar gael i gynorthwyo yn y blynyddoedd i ddod, a bydd hyn yn golygu y gall yr Awdurdod droi at y cronfeydd hyn yn hytrach na gofyn am gyfraniadau atodol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

## Cronfeydd

28 Cronfa yw 'gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i roi adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Roedd gan yr Awdurdod £641k mewn cronfeydd ar 1 Ebrill 2011, ac oherwydd i'r gyllideb gael ei rheoli'n effeithiol, nid oedd yn rhaid defnyddio'r cronfeydd i ariannu gwariant yn 2011-12.

29 Peth darbodus yw i'r Awdurdod adeiladu Cronfa Gyffredinol, a disgwylir mai'r meysydd lle bydd yn cael ei ddefnyddio yw:-

- unrhyw gostau pontio sy'n gysylltiedig â'r system gylchrestru newydd;
- gwrthbwyso cynnydd ym mhrisiau tanwydd na chyllidebwyd ar ei gyfer; ac
- ymorol am unrhyw rwymedigaethau wrth gefn a allai godi.

30 Gyda throsglwyddo tanwariant 2011-12, balans y gronfa fydd £928k. Nid yw balans y gronfa yn sylweddol o'i chymharu â'r cronfeydd cyffredinol sydd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

31 Mae'r swyddogion wedi ceisio rhagor o gyngor cyfreithiol ynglŷn â'r pŵer cyfreithiol i ddarparu taliadau diswyddo yn ôl disgresiwn i ddiffoddwyr tân. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod dalu Tâl Diswyddo Statudol (SRP) i ddiffoddwyr tân felly mae Cronfa Neilltuol wedi ei chreu ar wahân i ymorol am gostau diswyddiadau yn y dyfodol. Defnyddir y gronfa hon hefyd i ymorol am gostau diswyddo mewn perthynas â staff Cefnogol. Mae lefel y gronfa, sef £300k, yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer y diffoddwyr tân a'r staff cefnogol a allai wneud cais am ddiswyddiad gwirfoddol.

32 Y Cronfeydd Neilltuol eraill yw £68k ar gyfer ffioedd, fel yr amlinellir ym mharagraff 27, a £40k ar gyfer System newydd i Reoli'r Fflyd sydd allan ar dendr ar hyn o bryd.

## Darpariaethau

33 Mae'r Awdurdod wedi gallu cadw Darpariaethau erioed, a darpariaeth yw 'arian wedi ei neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y

gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'. Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod ddwy ddarpariaeth, a thrafodir hwy isod.

34 Mae gan yr Awdurdod Ddarpariaeth Bensiynau i ymorol am daliadau i'r gronfa bensiynau i ariannu ymddeoliadau ar sail afiechyd, ac i ymorol am gostau unrhyw lwmpsymiau ar sail afiechyd nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn. Gwnaed adolygiad o'r ddarpariaeth, a gwneud amcangyfrif o'r gofynion yn y dyfodol. Amcangyfrifir y bydd yn rhaid, ar ôl adolygu'r ceisiadau cyfredol, gynyddu'r ddarpariaeth £29k i sicrhau bod balans y ddarpariaeth yn ddigon i gwrdd â'r gofynion hynny.

35 Caiff y setliad ar yr ôl-daliad i ddiffoddwyr tân y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw ei wneud yn rhediad y gyflogres ym Mehefin 2012. Efallai na fydd balans y ddarpariaeth yn ddigon i gwrdd â'r costau a ddisgwylir, a hynny oherwydd anghydfod cenedlaethol sy'n mynd ymlaen gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas â'r ymrwymiad i dalu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol ar yr ôl-daliad sy'n ddyledus i'r unigolion dan sylw. Os yw'r taliad yn agored i dreth a chyfraniadau yswiriant gwladol, yna bydd yr Awdurdod yn gorfod gwneud y taliadau hyn oherwydd ystyrir bod cytundeb eisoes ynglŷn â'r swm i'w dderbyn gan y staff a'i bod yn net o dreth a chyfraniadau yswiriant gwladol. Y gost ychwanegol a amcangyfrifir yw £140k.

## Cynlluniau sy'n derbyn Arian Grant

36 Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian ar gyfer nifer o gynlluniau, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru; mae cyfanswm yr arian a dderbynnir dros £1.7 miliwn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o nifer o'r cynlluniau, a'r manteision a ddaw i'r gymuned o'u gweithredu. Y cynlluniau mwyaf a ariennir gan grant yw'r Ffenics, Ymyriadau, y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol a Firelink. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgarwch Cyfalaf

37 Gosodwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2010, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd, ynghyd ag arian yn cael ei gario drosodd o flynyddoedd blaenorol. Fel yr adroddwyd i'r Aelodau

eisoes, roedd nifer o gynlluniau wedi eu dal yn ôl fel bod digon o arian ar gael ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam. Roedd rhagor o oedi cyn dechrau prosiect Wrecsam yn golygu bod y gwariant yn llai na'r disgwyl. Unwaith eto, mae'r gyllideb wedi ei chario drosodd er mwyn gofalu bod arian yn ei le ar gyfer y cynllun.

38 Cytunodd yr Aelodau o fewn y flwyddyn i gynyddu'r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw a oedd yn yr arfaeth £700k fel bod modd ymdrin â'r dagfa waith. Fodd bynnag, trosglwyddwyd gwerth £150k o eitemau llai o faint o wariant cyfalaf i'r refeniw am y rhesymau a roddir ym mharagraff 11 uchod.

39 Prynwyd y tir yr oedd ei angen ar gyfer Gorsaf Dân newydd yn Nefyn. Paratowyd y cynlluniau, ac mae'r gwaith wedi cychwyn ar y safle. Bydd y gyllideb gyfalaf yn cael ei chario drosodd i 2012-13 i ofalu bod modd cwblhau'r cynllun.

40 Mae'r gwaith o ailfodelu Gorsaf Dân Betws-y-Coed wedi ei gynnwys erbyn hyn dan y gwaith mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd, a bydd y gwaith yn dechrau yn 2012-13.

41 Mae'r rhaglen ar gyfer cael Tendrau Dŵr newydd wedi dal i fyny erbyn hyn, ac mae'r gwasanaeth wedi cael nifer o gerbydau newydd eleni.

## CASGLIAD

42 Yn 2011-12, mae'r Swyddogion wedi rhoi cynlluniau ar waith i gwrdd â thargedau'r arbedion yn y dyfodol y cytunodd yr Aelodau arnynt dros gyfnod o dair blynedd. I'ch atgoffa, £815k yw targed yr arbedion yn ail flwyddyn y broses, a £835k yn y drydedd flwyddyn (2013-14). Mae rheolaeth lem ar y gyllideb wedi golygu bod rhagor o arbedion wedi eu gwneud yn y flwyddyn gyntaf er mwyn gofalu bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i gwrdd â thargedau'r arbedion y cytunwyd arnynt yn y blynyddoedd i ddod. Er bod tanwariant o £1.1 miliwn yn ymddangos yn uchel, y tanwariant net ar ôl addasiadau yw £527k. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o bwysau posibl yn y dyfodol, er enghraifft:

- codiadau cyflog,
- cynnydd ym mhris tanwydd,
- toriadau i Grantiau Cefnogi Refeniw,

- cynnydd yng Nghyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr,
- gostyngiad mewn arian grant,

a hynny ar ben targedau'r arbedion a nodir uchod. Felly, doeth fyddai neilltuo tanwariannau i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau i ofalu bod gan yr Awdurdod amddiffyniad ariannol yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD**

43 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariannau i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel y nodir ar dudalen3 o Atodiad A.